

# Yr Asiantaeth yn cefnogi'r galw i labelu pob cynhwysyn ar gynnyrch bwyd sydd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol

Mae'r ASB heddiw wedi cynghori y dylid darparu rhagor o wybodaeth am alergenau ar fwyd sydd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol er mwyn i ddefnyddwyr fod yn fwy hyderus yn y bwyd maent yn ei fwyta.

Yn ogystal, nododd y Bwrdd y prif flaenoriaethau a nodwyd fel rhan o uchelgais i wneud y Deyrnas Unedig y lle gorau i ddefnyddwyr sydd â gorsensitifrwydd i fwyd, sy'n cynnwys y rheiny sydd ag alergeddau ac anoddefiadau bwyd.

Mewn cyfarfod cyhoeddus, cytunodd y Bwrdd ar gyngor i Weinidogion y dylai cynnwys pob cynhwysyn ar y label fod yn orfodol ar gyfer pob cynnyrch bwyd sydd wedi'i becynnu ymlaen llaw i'w werthu'n uniongyrchol.

Mae'r ASB yn cytuno â ddefnyddwyr sy'n dioddef o alergeddau y byddai cynnwys pob cynhwysyn ar y label yn arwain at welliant sylweddol ac yn sicrhau gwell cysondeb drwy ddilyn yr un system labelu y mae ddefnyddwyr yn gyfarwydd â hi ar fwyd wedi'i becynnu.

Meddai Heather Hancock, Cadeirydd yr ASB:

'Mae alergeddau ac anoddefiadau bwyd yn effeithio ar filiynau o bobl a gall eu heffaith fod yr un mor fawr neu hyd yn oed yn fwy na bron pob clefyd arall a gludir gan fwyd.

'Rydym ni wedi dod i'r casgliad mai labelu bwyd fwy cynhwysfawr yw'r canlyniad cywir er mwyn diogelu ddefnyddwyr. Fodd bynnag, mae'n rhaid ei gyflwyno mewn ffordd y gallwn ni fod yn hyderus y bydd yn gweithio.

'Er ei bod hi'n amhosibl dileu'r risgiau'n llwyr, rydym ni o'r farn y bydd y newid hwn, ynghyd â mesurau eraill yr ydym ni'n eu blaenoriaethu, yn sicrhau diogelwch mwy effeithiol i ddefnyddwyr sy'n dioddef o alergeddau.'

Cytunodd y Bwrdd hefyd y dylai'r ASB arwain ar ystod o waith i hyrwyddo a chyflymu rhannu arfer gorau ar draws y diwydiant a gwella ymwybyddiaeth o fewn busnesau a'r cyhoedd.

Bydd penderfyniad y bwrdd yn sail i'r cyngor ffurfiol a roddir i Weinidogion i'w ystyried cyn ymateb Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (Defra) i'r Adolygiad Labelu Alergenau.